Cynllun Cerdyn Argyfwng a Chynllun Wrth Gefn Gofalwyr

Caerdydd a Bro Morgannwg

Cewch y wybodaeth hon mewn ieithoedd a fformatiau eraill drwy holi.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CARDIFF
CAERDYDD

www.bromorgannwg.gov.uk www.caerdydd.gov.uk

Carer's Emergency Card and Contingency Plan Scheme

Caerdydd a Bro Morgannnwg

Beth yw Cerdyn Argyfwng Gofalwr?

Cerdyn maint cerdyn credyd y byddwch yn ei gario bob amser gyda chi yw hwn. Petaech yn cael damwain, mynd yn sâl, neu'n methu â dychwelyd adref am ryw reswm arall, dengys bod rhywun sy'n dibynnu arnoch a allai fod mewn perygl difrifol am ei fod yn methu ag ymdopi ar ei ben ei hun.

Ni fydd y cerdyn yn cael ei ddefnyddio onibai eich bod yn methu â gwneud eich trefniadau eich hun.

Bydd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol y manylion cyswllt argyfwng a roesoch wrth gofrestru, felly bydd modd trefnu cymorth ar gyfer yr unigolyn yn eich gofal, yn gyflym dros y ffôn.

Sut mae'n gweithio?

Byddwch yn llenwi ffurflen gofrestru, gan roi manylion yr un y byddwch yn gofalu amdano, a manylion cyswllt tri unigolyn arall a allai gymryd eich lle mewn argyfwng.

Caiff y wybodaeth hon ei hanfon at staff y gwasanaethau gofal cymdeithasol, a bydd y rheiny'n anfon cerdyn ac arno rif unigol atoch, ac yn trefnu i'r manylion gael eu cynnwys mewn cronfa ddata.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai yr ydych wedi'u cynnig fel pobl gyswllt mewn argyfwng yn fodlon i'w manylion gael eu cofnodi yng nghronfa ddata'r cyngor. Ar y ffurflen gofrestru, gofynnir i chi sicrhau bod yr un yn eich gofal, a'r rhai yr ydych wedi'u cynnig fel pobl gyswllt mewn argyfwng, wedi llofnodi i ddangos eu bod yn fodlon i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol gadw eu gwybodaeth bersonol. Ni allwn brosesu eich cais ar gyfer ymuno â'r cynllun heb y llofnodion hyn, a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch os nad ydynt wedi'u cynnwys.

Mewn argyfwng, bydd y sawl sy'n dod o hyd i'r cerdyn yn eich pwrs neu'ch waled, (sef y gwasanaethau brys ac iechyd, fel arfer), yn ffonio'r rhif sydd arno gan ddyfynnu eich rhif cofrestru er mwyn i'ch pobl gyswllt gael eu hysbysu.

Bydd y bobl enwebedig hyn yn rhoi cefnogaeth dros dro fel na fo perygl i'r sawl yn eich gofal fynd i argyfwng neu i'w gyflwr ddirywio.

Sut caf i wybod pa un ai a ydw i'n ofalwr ai peidio ac yn

Os yw'r gosodiadau canlynol yn wir amdanoch chi, cewch gofrestru ar gyfer y cynllun cerdyn:

- **Byddwch yn gofalu am berthynas, cyfaill neu gymydog na allai ymdopi gartref ar ei ben ei hun am ei fod yn oedrannus, am fod nam corfforol neu feddyliol neu salwch hirdymor arno neu am ei fod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol.**
- **Rydych chi a'r sawl sydd yn eich gofal yn 18 oed neu'n hŷn na hynny**

Beth os na wn i am unrhyw un a fedr gymryd fy lle dros dro?

Cewch gofrestru ar gyfer y cynllun yr un fath. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi un ai i'r gwasanaethau brys ynteu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a'r rheiny wedyn fydd yn gwneud y trefniadau mewn argyfwng.

Yr un yw'r drefn hefyd pan na fydd y bobl sydd wedi'u henwebu ar gael.

Beth fydd yn rhaid i'r bobl enwebedig ei wneud?

Mae disgwyl i'r bobl yr ydych wedi'u henwebu adnabod yr unigolyn yn eich gofal a deall faint o gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arno. Bydd yn rhaid iddynt lofnodi'r ffurflen gofrestru er mwyn dangos eu bod yn fodlon i eraill gysylltu â hwy ac i'w cofnodion gael eu cynnwys yn y gronfa ddata. Bydd disgwyl iddynt wybod sut i fynd i gartref yr unigolyn a deall beth yn union fydd angen ei wneud drosto.

Dylai'r bobl enwebedig wybod pa feddyg teulu sydd gan yr unigolyn yn eich gofal, a pha aelodau eraill o'i deulu, a swyddogion yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, y dylid cysylltu â hwy mewn argyfwng.

Mae'r ffurflen gofrestru hefyd yn gynllun sylfaenol wrth gefn a fydd yn cael ei gadw yn y ffeiliau. Chi fydd yn gyfrifol am rannu'r cynllun hwn â'r bobl yr ydych wedi'u henwebu ac am sicrhau ei fod bob amser yn gyfredol.

Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fyddwn yn ei rhannu ag unrhyw asiantaethau eraill heb gael caniatâd oddi wrthych chi, yr unigolyn yn eich gofal a'r bobl enwebedig.

Sut mae gwneud cais am gerdyn?

Mae dwy ffordd o gofrestru ar gyfer y cynllun.

Os yw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wrthi'n eich asesu chi neu'r unigolyn yn eich gofal, cewch ofyn i'r aseswr gofrestru ar gyfer y cynllun.

Cewch hefyd ofyn am ffurflen gofrestru drwy ffonio:

- **Cyngor Caerdydd: 029 2023 4234**
- **Cyngor Bro Morgannwg: 01446 700111**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â swyddog gofalwyr eich cyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb, ni waeth beth fo ei hil, ei dras ethnig, ei ryw, ei rywioldeb, ei anabledd, ei oedran, ei iaith neu'i ddaliadau crefyddol.

Canllaw gyffredinol yn unig yw'r llyfryn hwn yn hytrach na datganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Hyd y credwn yr oedd yn gywir ar ddyddiad ei gyhoeddi. Serch hynny, gallai newid yn y gyfraith effeithio ar ei gywirdeb.

Argraffwyd Rhagfyr 2016 **Fe'i cyhoeddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg**

Carer's Emergency Card and Contingency Plan Scheme

Cardiff and the Vale of Glamorgan

This information can be made available in other languages and formats on request. Please ask.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CARDIFF
CAERDYDD

www.valeofglamorgan.gov.uk www.cardiff.gov.uk

Carer's Emergency Card and Contingency Plan Scheme

Cardiff and the Vale of Glamorgan

What is a Carers Emergency Card?

It's a credit card sized card that you carry at all times. In case of an accident, sudden illness or if for any other reason that you are unable to return home, and the person you care for would be at risk of serious harm if left alone, it shows that you have someone who relies on you and who cannot manage without help.

The card is only used when you are unable to make arrangements yourself.

Social care services will hold the emergency contact details taken when you register so by making a brief phone call, help can be arranged for the person you look after.

How does it work?

You complete a registration form giving details of the person you care for and the contact details of three people who could step in to take your place in an emergency.

This information is sent to social care services who will then issue you an individually numbered card and arrange for the details to be put on a database.

You are responsible for checking that the people you name as emergency contacts agree to their details being recorded on the council's database. On the registration form you will be asked to make sure that you, the person you care for, and all your nominated emergency contacts sign to agree to social care services keeping personal information. Without these signatures your request to join the scheme cannot be processed and we will return the form to you to obtain the signatures.

In an emergency and on finding the card in your purse or wallet, the person who finds the card, usually the emergency and health services, will call the number on the card, quoting your registration number so your emergency contacts can be notified.

The nominated people will provide interim support to avoid the risk of deterioration or crisis to the person you care for.

How do I know if I'm a carer and can register for the scheme?

If you answer Yes to the following, you can register for the card scheme:

- **You look after a relative, friend or neighbour who would not be able to manage at home alone either because of old age, physical/mental impairment, long term illness or drug/alcohol problem**
- **You and the person you care for are both aged 18 or over**

What if I don't have anyone who could temporarily take my place?

You can still register with the scheme. Information can either be provided to the emergency services or social care services who will make arrangements in an emergency.

This would also be the case if your nominated people were not available.

What do the nominated people have to do?

Your nominated people should know the person you care for and how much help and support they need. They will have to sign the registration form to give their permission to be contacted and have their records on the database. They also need to know how to get into the cared for person's home and what they may need to do for them.

Nominated people should know the GP the person you care for is registered with and any other family members they may need to contact in an emergency or who to contact in social care services.

The registration form is also a basic contingency plan that will be kept on file. It is your responsibility to share this with you nominated people and keep it up to date.

All information will be treated in confidence and in compliance with the Data Protection Act 1998. We will only share information with other agencies with your consent, the consent of the cared for person and any nominated people.

Carer's Emergency Card and Contingency Plan Scheme

Cardiff and the Vale of Glamorgan

How do I apply for a card?

There are two ways to register for the scheme.

If you or the person you care for is being assessed by social care services, ask the person completing the assessment to register for the scheme.

Alternatively, you can request a registration form by calling:

- **Cardiff Council: 029 2023 4234**
- **Vale of Glamorgan Council: 01446 700111**

We are committed to ensuring that services are accessible to all, regardless of racial and ethnic origin, gender, sexuality, disability, age, language or religious beliefs.

This leaflet is a general guide and is not a full and authoritative statement of the law. We believe that this leaflet is correct at the date published. Change in the law or Council policy may affect its accuracy.

Last printed: December 2016

Published by the Vale of Glamorgan Council